Sut i adnabod arolygon dros y ffôn go iawn yr HSE

Os derbyniaf alwad ffôn annisgwyl gartref neu yn y gwaith oddi wrth rywun yn dweud eu bod yn cynnal arolwg iechyd a diogelwch ar ran yr HSE, oes rhaid i mi ateb eu cwestiynau?

Mae pob arolwg HSE o unigolion yn gwbl wirfoddol ac nid oes rhaid i chi ymateb. Os bydd sefydliad yn cysylltu â chi ar ran yr HSE, mae'n debygol y byddant yn gwneud hynny fel rhan o broses ddethol ar hap. Er bod arolygon HSE yn wirfoddol, mae'n helpu os yw cymaint â phosibl o bobl yn cytuno i gymryd rhan, fel y gallwn gael darlun cywir o farn a phrofiadau pobl. Mae'r HSE yn cynnal arolygon o bryd i'w gilydd er mwyn cael gwybodaeth bwysig nad ydyw ar gael o unrhyw ffynhonnell arall, sy'n ein helpu i hyrwyddo a chyflawni safonau uchel o ran iechyd a diogelwch ym Mhrydain Fawr. Mae'r HSE yn gwerthfawrogi'r amser a dreuliwch yn ateb arolygon ac mae hon yn ffordd bwysig y gallwch helpu.

Pa arolygon sydd wedi'u comisiynu gan yr HSE?

Mae'r HSE yn comisiynu amrywiaeth o arolygon er mwyn cyrraedd ei nod o sicrhau y caiff risgiau yn y gweithle eu rheoli'n gywir. Bydd yr HSE yn noddi cyfres fawr o arolygon cenedlaethol (yn cynnwys arolygon dros y ffôn gartref ac yn y gweithle) dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'r arolygon wedi'u cynllunio i helpu'r HSE i werthfawrogi'n well sut y mae iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli mewn gweithleoedd ym Mhrydain a sut y mae rhaglenni'r HSE yn perfformio. Byddant yn hysbysu'r HSE am yr hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio a pham.

- Arolwg FIT3 MORI.